



Swyddog leuenctid Sir y Fflint

Cytundeb tymor penodol rhwng Ebrill 1af, 2017 a Mawrth 31ain, 2018 (**yn y lle cyntaf. Mae'r swydd wedyn yn hollol ddibynnol ar gadarnhad grant gan Gyngor Sir y Fflint yn flynyddol.**)

Oriau – 35 awr yr wythnos (yn cynnwys oriau anghymdeithasol - nosweithiau a phenwythnosau)

Cyflog – Graddfa 5: £18,779 – £21,769 y flwyddyn pro rata

Lleoliad – Swyddfa'r Urdd, Pentre Cythraul, Yr Wyddgrug.

Am ragor o fanylion a ffurflen gais cysylltwch a Sian Rogers ar 07976003320 neu sianrogers@urdd.org

Dyddiad cau: Mawrth 22, 2017.

Dyddiad Cyfweiliad: Mawrth 30, 2017.

Anfonir y ceisiadau electronig at sianrogers@urdd.org

Neu copi post at:

Sian Rogers

Cyfarwyddwr leuenctid a Chymuned y Gogledd a Canolbarth Cymru

Uned 26, Ystad Ddiwydiannol Colomendy

Dinbych

Sir Ddinbych

LL16 5TA

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Swyddog Ieuenctid Datblygu'r Gymraeg - Sir y Fflint	Lleoliad:	Swyddfa'r Urdd Pentre Cythraul. (New Brighton)
Adran:	Maes	Yn gyfrifol am:	na
Yn atebol i :	Swyddog Datblygu Fflint-Maelor a thrwyddo ef i Gyfarwyddwr Talaith y Gogledd.	Gradd:	Gradd: 5 (yn dechrau ar bwynt 1 sef £18,779 yn codi hyd at bwynt 6 sef £21,769 y flwyddyn)

<p>Prif bwrpas y swydd: Cyd-gordio a Sicrhau Cyfleoedd i Ieuenctid Sir y Fflint trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
<p>Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:</p> <p>Mae'r targedau a'r dyletswyddau isod yn cynrychioli ac yn seiliedig ar ddyheadau Urdd Gobaith Cymru a Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint. Mae'r targedau hefyd yn ymateb i strategaethau'r ddau gorff ac hefyd i Ganllawiau Gwaith Ieuenctid y Llywodraeth.</p> <p>Prif nod y swydd yw cynyddu gwaith Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg yn ardal Sir y Fflint. Prif oedran targed y swydd yw 11 - 25 oed . Bydd hefyd yn cynnwys elfennau o weithio gyda'r oedran 8 - 11 oed yn bennaf yn canolbwyntio ar drosglwyddo effeithiol o ddiddordebau allgyrsiol / addysg anffurfiol tu allan i oriau ysgol gan sicrhau defnydd cymdeithasol o'r Iaith Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu'r nifer o glybiau Ieuenctid Cymraeg yn ardal Sir Fflint gan adnabod ardaloedd ac arweinwyr priodol. • Cynnig gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg gyda phobl ifanc blynyddoedd 6, 7 ac 8 er budd dylanwadu ar eu dewis o iaith gymdeithasol . E.e. trefnu gweithgareddau newydd o fewn amser a thu allan i oriau ysgol, annog mynychu gweithgareddau'r Urdd a chlybiau ieuenctid y sir . • Gwella a dwysau'r berthynas gydag ysgolion lleol gan dynnu eu sylw a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir ac o ganlyniad yn codi proffil gweithgareddau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg. Trefnu Clybiau amser cinio o fewn i ysgolion er mwyn gwella sgiliau Iaith . • Cynyddu cyswllt gyda pobl ifanc 11 - 25 oed gan gynnig gweithdai a digwyddiadau newydd gyda'r bwriad i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg. Cynnal Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith a sesiynau Hybu'r Iaith o fewn Ysgolion Ail-Iaith.

- Cefnogi Fforwm Ieuencid Sirol yr Urdd yn ogystal a Fforwm Fflint Ifanc y Cyngor.
- Sicrhau cyfleoedd gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg ar gyfer pobl ifanc.
- Sicrhau fod plant a phobl ifanc Sir y Fflint yn mynychu cyfnod preswyl yng ngwersylloedd yr Urdd gan ehangu ar y ddarpariaeth tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Cydweithio a'r Swyddog Datblygu lleol i drefnu Teithiau ar gyfer pobl ifanc y Rhanbarth.
- Sicrhau fod cofnod o'r gwaith gan gynnwys data ar niferoedd a gweithgareddau yn cael ei gadw ar raglen ystadegol a gwefannau yr Urdd.

Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

- Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu da yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Rhaid meddu ar gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o bobl.
- Rhaid bod yn hyderus i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc gan adnabod ac ysgogi gwirfoddolwyr / arweinwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.
- Byddai unrhyw brofiad a chymhwyster mewn gwaith ieuencid o fantais (cynigir cwrs penodol OCN lefel 3 yn rhan o'r swydd onid yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster).
- Y gallu i adnabod bylchau mewn darpariaeth a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff/ mudiadau sydd yn addas i dargedau'r swydd.
- Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.
- Byddai profiad o weithio yn uniongyrchol gyda phobl ifanc - boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol, o fantais.
- Byddai profiad o lunio a darparu asesiadau risg yn fanteisiol ag ymwybyddiaeth o brosesau lechyd a Diogelwch.

Hanfodol:

- Gallu gweithio ar liwt eu hunain ac hefyd cydweithio fel aelod o dim.

Dymunol:

- Cymhwyster Gwaith Ieuencid Lefel 2/3 – byddwn yn gallu darparu cwrs.
- Hyfforddiant lechyd a Diogelwch a Chymorth cyntaf – bydd cwrs ar gael.
- Mynychu cwrs Asesu Risg (Off-Site Safety) – bydd cwrs ar gael.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd i'w dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma yn Rhagfyr 2016 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.